# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 22 Ionawr 2004

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Leighton Andrews (Rhondda);** Pwy sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldebau sydd ar ôl o dan y Ddeddf Diogelu Data dros Tai Cymru NDPB gynt a thros y Swyddfa Gymreig. (WAQ31472)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael ag unrhyw un o aelodau Pwyllgor y Ty ynghylch y cynnig i godi adeilad ychwanegol i'r Cynulliad ochr yn ochr â'r siambr drafod newydd sydd wrthi'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd. (WAQ31473)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Leighton Andrews (Rhondda);** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw BBC Cymru wedi'i wahodd i enwebu cynrychiolydd i gymryd rhan yn y weithdrefn benodi ar gyfer aelodau o Gyngor Darlledu Cymru. (WAQ31474)

**Leighton Andrews (Rhondda);** Sut ac ar ba ffurf, ac ar ba faterion darlledu a phenodiadau, y mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi ymgynghori â'r Gweinidog a'i ragflaenwyr ers creu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (WAQ31475)

**Leighton Andrews (Rhondda);** Pryd gafodd y Concordat gyda'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei adolygu ddiwethaf. (WAQ31476)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd oedd y tro diwethaf i’r Gweinidog siarad yn bersonol â Rheolwr Cyffredinol yr Ardd Fotaneg Genedlaethol am yr Ardd, ac a all roi manylion am y sgwrs hon. (WAQ31477)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gysylltiad y mae'r Gweinidog wedi'i gael yn bersonol â Chomisiynwyr yr Elusen ynghylch yr Ardd Fotaneg Genedlaethol. (WAQ31478)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd oedd y tro diwethaf i’r Gweinidog siarad neu gwrdd yn bersonol ag Ymddiriedolwyr yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, ac a wnaiff roi manylion y trafodaethau. (WAQ31479)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);**A wnaiff y Gweinidog roi gwybod i mi pa fuddsoddiad y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i wneud tuag at ddatblygiad economaidd yng Nghwm Rhymni Uchaf yn fy etholaeth. (WAQ31440)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ymestyn parthau 20 milltir yr awr o amgylch Cymru. (WAQ31441)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bwriada ddatblygu'r cynigion yn y Strategaeth Cerdded a Seiclo i Gymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2003. (WAQ31442)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau diweddar yn ei bortffolio. (WAQ31443)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);**A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y nifer o fusnesau a gychwynnodd yn y Gogledd yn 2003. (WAQ31444)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith arian cyhoeddus y DU ar hyder Datblygu Economaidd a Busnes yng Nghymru. (WAQ31453)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A oes unrhyw gynlluniau i ariannu astudiaethau ychwanegol i'r angen am ffordd osgoi Hafod yn Abertawe. (WAQ31445)

**David Davies (Mynwy);** Beth sy'n cael ei wneud gan Awdurdod Datblygu Cymru i hybu cydraddoldeb yng Nghymru. (WAQ31446)

**Leighton Andrews (Rhondda);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar alldro Amcan 1 yn y Cymoedd. (WAQ31447) **TYNNWYD YN ÔL**

**Denise Idris-Jones (Conwy);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu gweithgarwch economaidd yng Nghymru. (WAQ31448)

**Denise Idris-Jones (Conwy);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefelau cyflog yng Nghymru. (WAQ31449)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw Cymru ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau sydd wedi'u hamlinellu yn Strategaeth Trafnidiaeth Rheilffyrdd Llywodraeth y DU. (WAQ31450)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr effaith ar ddatblygu economaidd yng Nghymru, yn sgil adroddiad y Cyfrifiad a gyhoeddwyd eleni gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n dynodi draen dawn o Gymru i Loegr. (WAQ31451)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi Llywodraeth y Cynulliad i greu swyddi yng Nghymru. (WAQ31452)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddi gweithgynhyrchu yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. (WAQ31454)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd twristiaeth i Ganolbarth a Gorllewin Cymru. (WAQ31455)

**Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi copïau o ffurflenni cais Amcan 1 llwyddiannus gan Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad. (WAQ31489)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Leighton Andrews (Rhondda);** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a fydd y sianel 'Teachers' TV' ar gael yng Nghymru. (WAQ31483)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Leighton Andrews (Rhondda);** Pa waith ymchwil mae'r Gweinidog yn ymwybodol ohono o ran priodoldeb mesurau teneurwydd mewn fformiwlâu ariannu y mae adrannau y Cynulliad yn eu harfer. (WAQ31480)

**Leighton Andrews (Rhondda);** Mewn sawl fformiwla ariannu y mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn eu harfer y defnyddir mesurau teneurwydd. (WAQ31481)

**Leighton Andrews (Y Rhondda);** Faint o ddiffiniadau o gefn gwlad sy’n cael eu defnyddio yn y fformiwlâu ariannu y mae’r Cynulliad yn eu harfer. (WAQ31482)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** A yw'r Gweinidog yn bwriadu ariannu gwasanaethau cymorth ar gyfer y cynllun Taliadau Uniongyrchol ym mhob Cyngor yng Nghymru. (WAQ31485)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fynediad i wasanaethau cyhoeddus ar gyfer y rheini yng Nghymru y mae Iaith Arwyddion Prydain yn iaith gyntaf iddynt. (WAQ31456)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa waith ymchwil ychwanegol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei gomisiynu yn sgîl adroddiad y Comisiwn Digartrefedd. (WAQ31457)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Faint o'r Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer 2003/04 oedd wedi'i ymrwymo ar 1 Ionawr 2004. (WAQ31458)

**Denise Idris-Jones (Conwy);** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf ynghylch cynlluniau'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer cronfa gwerth £100 miliwn i ymladd trosedd. (WAQ31459)

**Denise Idris-Jones (Conwy);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch datblygu Undebau Credyd yng Nghymru. (WAQ31460)

**Leighton Andrews (Rhondda);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddiogelwch cymunedol yn y Cymoedd. (WAQ31461)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei thrafodaethau gyda Phrif Gwnstabliaid Cymru ynghylch gweithredu'r gofynion o ran ailgategoreiddio canabis, sy'n dod i rym ar 29 Ionawr 2004. (WAQ31462) **R**

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygiadau o fewn y Gwasanaeth Tân yng Nghymru. (WAQ31463) **R**

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem o eiddo gwag yng nghefn gwlad Cymru. (WAQ31464)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A gawn ni’r wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog am ei pholisïau i fynd i'r afael ag amddifadedd yng Nghymru. (WAQ31465)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau i adfywio cymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. (WAQ31466)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi Llywodraeth y Cynulliad i wella safon tai yng Nghymru. (WAQ31467)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl tai fforddadwy ym maes Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. (WAQ31468)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar dai yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. (WAQ31469)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar brosiectau Cymunedau yn Gyntaf yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. (WAQ31470)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pryd y mae'n bwriadu pennu y nod effeithlonrwydd ynni i Gymru yn unol ag Adran 3 o Ddeddf Ynni Cynaliadwy 2003. (WAQ31471)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pam y cafodd y cais am grant (£1,300) a wnaethpwyd gan Gyngor Tref Aberystwyth i Gronfa Cymunedau yn Gyntaf ei wrthod. (WAQ31486) **R**

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa feini prawf sydd angen i ymgeiswyr eu bodloni er mwyn derbyn grant o Gronfa Cymunedau yn Gyntaf. (WAQ31487) **R**

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r cydgysylltwyr lleol sy'n rhan o brosiectau Cymunedau yn Gyntaf yn derbyn cyngor neu hyfforddiant sy'n eu galluogi hwythau i roi cyngor i ymgeiswyr am grantiau. (WAQ31488) **R**

## *Gofyn i Bwyllgor y Ty*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw amcangyfrif y gost o adeiladu adeilad ychwanegol i'r Cynulliad yn gyfochrog â siambr drafod newydd y Cynulliad sy'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd. (WAQ31484)